**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
—
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

13 Tachwedd 2024

Annwyl Huw

Datganiad Ysgrifenedig: Comisiwn Annibynnol ac Adolygiad o'r Sector Dŵr

Yn ein cyfarfod ddydd Llun 4 Tachwedd 2024, fe wnaethom ni nodi eich datganiad ysgrifenedig ynghylch lansio Comisiwn Annibynnol ac Adolygiad o'r Sector Dŵr ar y cyd â Llywodraeth y DU. Mae'r mater hwn o ddiddordeb i ni o ystyried ein trafodaeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar Fil Dŵr (Mesurau Arbennig) Llywodraeth y DU a'n gwaith craffu ar gysylltiadau rhynglywodraethol.

Yn y datganiad, rydych chi'n cyfeirio at "agwedd newydd ein dwy lywodraeth o safbwynt cydweithio trawsffiniol ar fater sy'n effeithio ar bob un ohonom". Rydych hefyd yn nodi bod "dŵr yn bwnc cymhleth a hynod sensitif yn y setliad datganoli yng Nghymru, ***a bydd angen ei ystyried wrth ddatblygu trefniadau ar gyfer y dyfodol***" a bod argymhellion gan y Comisiwn a fydd "yn ***sail i ddeddfwriaeth bellach i ddenu buddsoddiad hirdymor*** a glanhau ein dyfroedd am byth". [Ein pwyslais ni].

Yn ogystal, rydych chi'n dweud "Mae gennym ***[ni]*** flaenoriaethau clir ar gyfer diwygio ac ***ymdeimlad a rennir*** o'r gwaith y bydd ei angen ar draws cyfundrefnau polisi a rheoleiddiol y ddwy wlad i wneud i'r newid hwn ddigwydd. Bydd angen ***consensws ar gyfer gweithredu***, ac mae hyn yn cynnwys atebion unigryw yng Nghymru ac yn Lloegr lle bo'u hangen i sicrhau sector a fframwaith dŵr gwydn sy'n ddiogel ac ***wedi'i ailosod*** a fydd yn gweithio yn y tymor hir." [Ein pwyslais ni].

Cyfeirir hefyd at "Bydd y gwaith hanfodol hwn yn ategu'r ystod eang o waith ar ansawdd dŵr sydd eisoes yn mynd rhagddo mewn meysydd eraill ac "ein cydweithrediad parhaus â'n cymheiriaid yn Lloegr ar y mater hanfodol hwn".

Rydym yn rhagweld y gallai fod angen datrysiad deddfwriaethol sylfaenol i gyflawni rhai o argymhellion posibl y Comisiwn ac y bydd hyn yn debygol o godi yn ystod y Seithfed Senedd. O ystyried ei bod yn debygol y byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno Bil i weithredu argymhellion ar gyfer Lloegr sy'n deillio o waith y Comisiwn, mae rhai cwestiynau'n codi:

(i) Sut fydd Llywodraeth Cymru yn ymdrin â gwaith y Comisiwn ac yn gweithredu ei hargymhellion sy'n ymwneud â Chymru, ac a yw eich swyddogion yn gweithio ac yn paratoi ar y sail (yn ystod y Senedd hon) y bydd Bil yn cael ei gyflwyno yn y Seithfed Senedd?

(ii) Fel rhan o'r cydweithio trawsffiniol rydych chi'n cyfeirio ato yn eich datganiad ysgrifenedig, pa sylwadau ydych chi wedi'u gwneud i Lywodraeth y DU ynghylch datrysiadau deddfwriaethol yn y dyfodol i gyflawni argymhellion y Comisiwn? A ydych chi neu'ch swyddogion wedi trafod gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynghylch defnyddio Bil y DU i gyflawni'r argymhellion sy'n berthnasol i Gymru?

(iii) O ran eich cydweithrediad â'ch cymheiriaid yn Llywodraeth y DU, sut y gellid effeithio ar hyn pe bai deddfwriaeth yn cael ei chyflwyno i'r Senedd, yn hytrach na bod Llywodraeth y DU yn deddfu dros Gymru?

(iv) Pa wybodaeth ydych chi wedi'i rhoi i'r Comisiwn am ddatrysiadau deddfwriaethol posibl yn y dyfodol a'r dull rydych chi'n ei ffafrio?

(v) Mae eich datganiad yn cyfeirio at "[g]ynrychiolydd penodol o'r sector yng Nghymru" ar y Comisiwn, a cheisio barn arbenigwyr Cymru i sicrhau bod safbwynt Cymru yn cael ei ystyried ar y lefel uchaf. Ar ba sail y bydd y cynrychiolwyr hyn yn rhoi mewnbwn i'r Comisiwn: ar sail Bil yn dod gerbron y Senedd neu ddatrysiad deddfwriaethol ar y cyd mewn Bil y DU?

Rwy'n edrych ymlaen at gael ymateb erbyn 28 Tachwedd 2024. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Yn gywir,

Mike Hedges

Mike Hedges
Cadeirydd

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**